

# Ymgynghoriad ar reoliadau dyddiadau tymhorau ysgol

## Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn:

rebecca@athrawon.com / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **21 Chwefror 2014** i:

Y Gangen Llywodraethu Ysgolion  
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [SMED2@cymru.gsi.gov.uk](mailto:SMED2@cymru.gsi.gov.uk)

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer y broses ymgynghori sydd i'w chynnal mewn achosion lle nad yw awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig wedi llwyddo i gysoni dyddiadau tymhorau ysgol? (Gweler paragraffau 4.1 i 4.4 yn adran 4.)

<b>Cytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau**

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer y prosesau ymgynghori amrywiol sydd i'w cynnal mewn achosion lle mae dyddiadau tymhorau ysgol wedi eu cysoni, ond bod Gweinidogion Cymru yn credu y dylid newid y dyddiadau ar gyfer rhai ysgolion neu ar gyfer pob ysgol? (Gweler paragraffau 4.5 i 4.18 yn adran 4.)

<b>Cytuno</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Ddim yn cytuno nac yn anghytuno</b>	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

**Sylwadau**

Anghytunwn yn gryf iawn â'r cynigion hyn.

Mae UCAC yn gadarn o'r farn bod angen gwneud pob ymdrech bosib i gadw at y terfyn amser o ddwy flynedd lawn cyn dechrau'r flwyddyn ysgol dan sylw. Fodd bynnag, cytunwn y gallai bod terfyn amser o flwyddyn ysgol gyfan ar gyfer newidiadau dan amgylchiadau gwirioneddol eithriadol. Byddem yn gwrthwynebu'n chwynr unrhyw newidiadau ar ôl y terfyn amser hwn.

Esboniwn ein rhesymeg, mewn perthynas â'r enghreifftiau a gynigwyd yn y ddogfen ymgynghorol, isod.

Deliw'n gyntaf â'r enghraifft ble nad yw 'rhybudd byr' yn dod mewn i'r hafaliad, sef yr enghraifft a gynigir ble mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig "wedi cytuno ar ddyddiadau eithriadol o gynnar ar gyfer gwyliau hanner tymor yr hydref". Rydym o'r farn bod scenario o'r fath yn anhebygol dros ben; os yw'r awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol oll wedi cytuno ar set benodol o ddyddiadau, mae'r dyddiadau hynny'n debygol iawn o fod yn rhai rhesymol. Byddai unrhyw anghytundeb ac unrhyw ffactorau perthnasol wedi cael eu codi, a'u trafod yn ystod y broses wreiddiol o gyd-drafod y dyddiadau. Fodd bynnag, os yw'r grym hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil, a bod angen darparu yn y rheoliadau ar gyfer ymgynghori dan y fath amgylchiadau, dylai'r trefniadau fod yr un fath ag ym mharagraffau 4.1-4.4 uchod. Nid oes unrhyw reswm dros dorri'r cyfnodau'n fyrrach, na chwtogi ar y rhestrau o ymgynghoreion, na'r dulliau ymgynghori.

O ran yr enghraifft a roddir o ddigwyddiad o bwys, megis y Ryder Cup, mae nifer o bwyntiau i'w gwneud. Mae UCAC o'r farn ei fod yn gwbl rhesymol i fynnu bod unrhyw trefniadau

wedi'u gwneud, ac unrhyw sgilleffeithiau ar y system addysg wedi'u hadnabod ac wedi cael eu hystyried, mewn da bryd. Nid yw digwyddiadau fel hyn yn cael eu trefnu ar fyr rybudd - mae'r ddogfen ymgynghorol ei hyn yn cydnabod hynny. Mae'n gwbl rhesymol i fynnu bod y trefnwyr yn ystyried y materion hyn, yn ddelfrydol dwy flwyddyn ysgol ymlaen llaw, ond ar y lleiaf, blwyddyn ysgol gyfan cyn y digwyddiad ei hun. Os na fydd y trefnwyr wedi gwneud hynny, byddai angen iddynt hwythau newid eu trefniadau, ac addasu i anghenion a gofynion y system addysg, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Dychwelwn, yng nghyd-destun yr enghraifft hwn, i'n hegwyddor agoriadol sef bod angen gwneud pob ymdrech bosib i gadw at y terfyn amser o ddwy flynedd lawn cyn dechrau'r flwyddyn ysgol dan sylw, ond bod terfyn amser o flwyddyn ysgol gyfan ar gyfer newidiadau dan amgylchiadau gwirioneddol eithriadol.

O ran yr enghreifftiau eraill yn y ddogfen ymgynghorol, sef y scenarios 'argyfyngus' neu fyr-rybudd megis cyfnod o alaru neu epidemig, teimlwn nad yw'r opsiynau wedi cael eu harchwilio'n ddigon trwyadl. Petai cyfnod o alaru, epidemig neu rhyw ddigwyddiad argyfyngus arall, rydym o'r farn y byddai hawl - a modd - cau'r ysgolion; mae hynny'n digwydd ar hyn o bryd am resymau iechyd a diogelwch, er enghraifft pan fydd tywydd garw, neu bod perygl i adeiladau'r ysgol er enghraifft o ganlyniad i asbestos.

Yr hyn nad oes modd ei wneud ar hyn o bryd, yw ymestyn y tymor i wneud yn iawn am y cyfnodau hynny. Er na gyfeiria'r ddogfen ymgynghorol at hynny, cymrw'n mai ymestyn tymhorau ysgol ar fyr-rybudd yw bwriad a phwrpas caniatáu ymgynghori ar newidiadau yn y modd hwn.

Os mai ceisio lliniaru ar 'yr anawsterau y mae nifer o deuluoedd sy'n gweithio'n galed ledled Cymru yn eu hwynebu o ganlyniad i amrywiadau yn nyddiadau tymhorau ysgol' yw'r bwriad, nid ydym o'r farn y byddai newidiadau disymwth o ran cadw ysgolion ar agor yn hirach nag y cynlluniwyd yn llwyddo i wneud hynny. Mae teuluoedd (yn ogystal â staff ysgolion) yn gorfod cynllunio'u gwyliau ar amseroedd penodol o'r flwyddyn, sef yn ystod gwyliau ysgol. Pe byddai ail-drefnu byr-rybudd, mae'n debygol iawn y byddai teuluoedd a staff eisoes wedi trefnu (a thalu am) eu gwyliau. Mi allai fod yn anodd cadw'r ysgol gyfan ar agor o ran y nifer o staff fyddai ar gael, ac mi allai rhai dysgwyr fod dan anfantais oherwydd y byddent yn absennol o'r gwersi a ail-drefnwyd ar fyr-rybudd, am fod eu teuluoedd eisoes wedi trefnu gwyliau. Yn ogystal, mi fyddai ail-drefnu o'r fath yn gallu creu anghysonderau rhwng ysgolion sy'n creu'r holl broblemau i deuluoedd sy'n bodoli ar hyn o bryd ac y mae Llywodraeth Cymru'n ceisio symud oddi wrthynt.

Cred UCAC fod ail-drefnu byr-rybudd o'r fath yn creu llawer fwy o broblemau nag y mae'n ei ddatrys.

### **Cwestiwn 3 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Hoffem eich gwahodd i roi eich sylwadau am unrhyw effeithiau posibl y gallai ein cynigion eu cael mewn perthynas ag:

- a) anabledd
- b) hil
- c) rhyw ac ailbennu rhywedd
- d) oed
- e) crefydd a chredo neu ddiffyg credo
- f) cyfeiriadedd rhywiol

g) hawliau dynol

Rhowch eich sylwadau yma:

**Cwestiwn 4** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: